# Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

**2010 mccc 8**

*Targedau gwastraff*

**5 Monitro ac archwilio cydymffurfedd â thargedau**

(1) Caiff Gweinidogion Cymru wneud darpariaeth drwy reoliadau–

(a) ynghylch sut y mae cydymffurfedd ag unrhyw darged perthnasol i'w asesu;

(b) ynghylch trefniadau ar gyfer monitro ac archwilio cydymffurfedd ag unrhyw darged perthnasol;

(c) sy'n rhoi pwerau mynediad a phwerau arolygu mewn cysylltiad â'r monitro a'r archwilio hwnnw ar gyfer personau a awdurdodir gan Weinidogion Cymru;

(d) sy'n ei gwneud yn ofynnol i gofnodion gael eu cadw gan awdurdod lleol mewn cysylltiad â thargedau perthnasol;

(e) sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei darparu gan awdurdod lleol i bersonau penodedig ar ffurf benodedig neu mewn dull penodedig mewn cysylltiad â thargedau perthnasol;

(f) sy'n ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei chyhoeddi mewn cysylltiad â thargedau perthnasol;

(g) sy'n gosod atebolrwydd ar awdurdod lleol i dalu cosb os yw'n methu â chydymffurfio â gofyniad mewn rheoliadau o dan unrhyw un neu unrhyw rai o baragraffau (b) i (f).

(2) Yn yr adran hon, "targedau perthnasol" yw–

(a) targedau ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio o dan adran 3;

(b) unrhyw dargedau gwastraff o dan adran 4(1)(a).

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 5 mewn grym ar 15.2.2011, gweler **a. 21(2)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Gwastraff (Cymru) 2010, Adran 5.